# Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,



## Beth rydyn ni'n ei wneud?

Mae ysgol eich plentyn wedi cytuno i gymryd rhan mewn astudiaeth, sy'n cynnwys arolwg byr gan Brifysgol Caerdydd am iechyd a lles plant. Bydd plant yng Nghyfnod Allweddol 2 yn cael eu gwahodd i gymryd rhan.

## Beth sy'n gysylltiedig?

Yn ystod gwers, gofynnir i'ch plentyn gymryd rhan mewn arolwg ar-lein byr, a fydd yn cymryd tuag 20 munud, ar gyfartaledd. Bydd yn gofyn rhai cwestiynau cyffredinol i'r disgybl am ei hun, ei deimladau, ei farn am yr ysgol, ac ymddygiadau sy'n gallu effeithio ar iechyd plant. Mae'r cwestiynau hyn wedi cael eu datblygu trwy ymgynghori ag athrawon, rhieni a phlant mewn ysgolion ar draws Cymru. Athrawon y plant fydd yn goruchwylio'r arolwg. Bydd plant yn cael gwybod bod cymryd rhan yn wirfoddol ac, os byddant yn dewis cymryd rhan, gallant wrthod ateb unrhyw gwestiwn nad ydynt am ei ateb. Bydd plant yn cael gwybod bod eu hatebion yn gyfrinachol. Ni ofynnir i'r plant roi eu henw. Cynhelir ein Harolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr **rhwng mis Medi 2022 ac Ebrill 2023. Mae rhai ysgolion wedi'u gwahodd i gymryd rhan yn ein harolwg yn ystod ton yr Hydref (Medi-Rhagfyr 2022) ac ysgolion eraill yn ystod ton y Gwanwyn (Tachwedd 2022-Ebrill 2023).** Bydd eich ysgol yn cymryd rhan yn yr arolwg yn ystod yr wythnosau nesaf.

Os hoffech gael copi o'r arolwg gallwch naill ai:

a) fynd i dudalen ein gwefan: https://www.shrn.org.uk/cy/arolwg-iechyd-a-lles-myfyrwyr-mewn-ysgolion-cynradd-2022/, neu
b) agor camera eich ffôn, pwyntio'r camera at y côd QR hwn ac yna tapio'r faner naid.

## Pwy sy'n gwneud yr ymchwil?

Mae'r ymchwil yn cael ei gwneud gan ganolfan ymchwil DECIPHer ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae DECIPHer yn cynnal ymchwil i iechyd a lles plant a phobl ifanc ac mae'n rhan o Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd. Arweinir yr ymchwil gan yr Athro Graham Moore (Dirprwy Gyfarwyddwr DECIPHer) a Dr Kelly Morgan (Uwch-gymrawd Ymchwil).

## Pwy sydd wedi ariannu'r ymchwil?

Ariannwyd yr ymchwil gan Lywodraeth Cymru.

## Pam rydyn ni'n gwneud yr ymchwil?




Ar hyn o bryd, mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (y rhwydwaith; http://www.shrn.org.uk/), sydd wedi'i leoli yn DECIPHer, yn gweithio gyda phob ysgol uwchradd yng Nghymru i lywio a gwerthuso camau i wella iechyd pobl ifanc. Mae'n gwneud hyn yn rhannol trwy gynnal arolygon bob dwy flynedd.

Mae canfyddiadau dienw yn cael eu hadrodd yn ôl i ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys digwyddiadau i staff ysgolion drafod pynciau lles a chynllunio ffyrdd o wella iechyd pobl ifanc. Nod yr astudiaeth bresennol yw deall sut gall y Rhwydwaith weithio gydag ysgolion cynradd i wella iechyd a lles plant iau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio arolwg i fesur iechyd a lles plant cyn iddynt symud i'r ysgol uwchradd. Mae hefyd yn cynnwys datblygu ffyrdd o weithio gydag ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd maen nhw'n bwydo iddynt i gynllunio a gwerthuso camau i wella a chefnogi iechyd a lles.

Gwnaethom ni gynnal arolwg tebyg o ddisgyblion ysgolion cynradd Blwyddyn 6 yn 2019 ac yn 2021 a chynnal gwaith peilot i brofi'r arolwg ymhlith disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn ystod Gwanwyn 2022. Bydd cymharu canfyddiadau o'r arolwg newydd hwn â'r arolygon cynt hefyd yn rhoi gwybodaeth bwysig am y ffordd y mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar iechyd a lles plant. Hefyd, bydd yn helpu rhoi darlun cyffredinol o iechyd a lles ar gyfer disgyblion 7 i 11 oed yng Nghymru.

### A oes rhaid i fy mhlentyn gymryd rhan?

Er bod ysgol eich plentyn wedi cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth, chi a'ch plentyn fydd yn penderfynu a yw'ch plentyn yn cymryd rhan. Siaradwch â'ch plentyn am yr astudiaeth. Os byddwch chi'n cytuno, bydd athro'ch plentyn yn gwirio a yw eich plentyn yn hapus i gymryd rhan ar ddiwrnod yr arolwg. Os bydd eich plentyn yn dewis peidio cymryd rhan, caiff weithgareddau eraill i'w gwneud. Os nad ydych chi am i'ch plentyn gymryd rhan yn yr arolwg, cysylltwch â'ch ysgol o fewn y pythefnos nesaf.

### A all fy mhlentyn newid ei feddwl os yw'n penderfynu ei fod am roi'r gorau i gymryd rhan?

Os bydd eich plentyn yn dewis cymryd rhan, gall newid ei feddwl a rhoi'r gorau i wneud yr arolwg ar unrhyw adeg. Bydd yr athro'n dweud hyn wrth y plant cyn i'r arolwg ddechrau. Fodd bynnag, ar ôl i'ch plentyn gwblhau'r arolwg, oherwydd bod ymatebion yn cael eu casglu'n ddienw, ni fyddwn yn gallu adnabod ymatebion plentyn unigol er mwyn eu dileu nhw.

### Beth fydd yn digwydd i atebion fy mhlentyn?

Bydd pob ateb yn ddienw. Mae hyn yn golygu na fydd y tîm ymchwil yn gwybod pwy sy'n cymryd rhan yn yr arolwg. Nid ydym yn casglu unrhyw wybodaeth adnabyddadwy ac ni fyddwn yn gofyn am enw'ch plentyn ar unrhyw adeg. Bydd yr holl ddata'n cael ei storio'n ddiogel ar weinydd y brifysgol sy'n cael ei ddiogelu gan gyfrinair. Bydd gwybodaeth ddienw'n cael ei chadw am gyfnod amhenodol ac yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data oherwydd bod ei gwerth yn debygol o barhau at ddibenion ymchwil, er enghraifft i ddeall newid dros amser yn iechyd a lles plant trwy gyfuno'r wybodaeth ag arolygon dienw blaenorol a chanlynol. Prifysgol Caerdydd yw rheolydd y data.

Mae rhagor o wybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau diogelu data a hysbysiadau preifatrwydd Prifysgol Caerdydd i'w gweld yma yn https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/policies-and-procedures/data-protection. Bydd crynodebau dienw o'r data'n cael eu cynnwys mewn adroddiadau i ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, ac yn cael eu cyhoeddi mewn erthyglau mewn cyfnodolion gwyddonol. Hefyd, gellir ei ddefnyddio gan y tîm ymchwil, neu ymchwilwyr cymeradwy eraill, at ddibenion ymchwil anfasnachol yn y dyfodol. Gallai set ddata ddienw gael ei llwytho i archif lle y gall ymchwilwyr eraill yn y Brifysgol gael ati at ddibenion ymchwil wyddonol.

### A yw'r astudiaeth wedi cael cymeradwyaeth foesegol?

Mae'r holl ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd yn cael ei hadolygu gan bwyllgor moeseg sy'n gwirio bod popeth rydyn ni'n bwriadu ei wneud yn deg. Aseswyd yr ymchwil hon gan Bwyllgor Moeseg Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd. Gallwch gysylltu â'r pwyllgor ar socsi-ethics@cardiff.ac.uk os oes gennych unrhyw ymholiadau.

### Beth mae angen i mi ei wneud nawr?

Os ydych chi'n hapus i'ch plentyn gymryd rhan, nid oes angen i chi wneud unrhyw beth arall. Os nad ydych am i'ch plentyn gymryd rhan yn yr arolwg, cysylltwch â'ch ysgol **o fewn y pythefnos nesaf**; byddant yn gwneud trefniadau i sicrhau nad yw eich plentyn yn cymryd rhan a bod gweithgareddau eraill yn cael eu rhoi'n dawel i'ch plentyn eu cwblhau tra bydd y dosbarth yn ateb yr arolwg.

Os oes gennych gwestiynau pellach am yr astudiaeth, cysylltwch â'n tîm ymchwil ar PrimarySHRN@cardiff.ac.uk